Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

BAROD AM BRIFYSGOL

# PAM FYND I'R BRIFYSGOL?

Gyda chymaint o opsiynau ar gael i fyfyrwyr ar ôl iddynt adael yr ysgol neu'r coleg, efallai eich bod chi'n pendroni ai Addysg Uwch yw'r llwybr cywir. Yn bendant mae gwneud y penderfyniad i gwblhau gradd israddedig yn fuddsoddiad mawr ac yn brofiad sy'n mynd i newid bywyd.

Mewn gwirionedd, mae sawl budd o fynd i'r Brifysgol ac ennill gradd gan gynnwys buddion ariannol, addysgol, cymdeithasol a phersonol.

Gadewch i ni ddarganfod mwy am y buddion yma..

## #1

Cyfle i ddod yn annibynnol ag i ddatblygu fel unigolyn.

## #2

DYSGU AM RYWBETH RWYT TI WIR YN EI GARU; DOD YN ARBENIGWR YN DY FAES A CHAEL EFFAITH POSITIF AR GYMDEITHAS TRWY DDEFNYDDIO DY WYBODAETH A DY ARBENIGEDD.



## #3

Ehangu dy orwelion. Mae'r brifysgol yn gyfle i brofi pob math o bethau newydd gan gynnwys diddordebau a gweithgareddau, llefydd a diwylliannau, yn ogystal â chwrdd â phobl newydd o bob cwr o'r wlad a thu hwnt a gwneud ffrindiau gydol oes.

## #4

ELWA O SGILIAU A PHROFIADAU GWERTHFAWR A FYDD YN DY WNEUD YN FWY DENIADOL I GYFLOGWYR, AC YN DY RHOI UN CAM AR Y BLAEN AC YN BAROD AR GYFER BYD GWAITH.



## #5

Mae'n fuddsoddiad rhagorol. Mae ystadegau wedi dangos inni dro ar ôl tro bod graddedigion yn debygol o ddechrau ar gyflog uwch nag y rheiny sydd ddim yn raddedigion - o leiaf £ 10.000.

Mae'r cyflog cychwynnol ar gyfartaledd i raddedigion yn amrywio rhwng £21.000 a £25.000 y flwyddyn ar cyflogau cychwynnol cyhoeddedig uchaf ar gyfer 2020 oedd £48.000 (cwmni cyfreithiol) a £44.000 (Aldi).